Rhoddodd Adda enw iddyn nhw i gyd. Rhaid ei fod yn glyfar iawn i wneud hynny. Ond doedd dim cymar addas i Adda ymhlith yr holl anifeiliaid a'r creaduriaid.



19

Dyma'r ARGLWYDD Dduw yn gwneud i'r dyn gysgu'n drwm. Cymerodd ddarn o ochr corff y dyn.



20

Wedyn dyma'r ARGLWYDD Dduw yn ffurfio Dynes allan o'r darn oedd wedi ei gymryd o'r dyn. Roedd y ddynes a greodd Duw yn berffaith fel cymar i Adda.



21

Creodd Duw bopeth mewn chwe diwrnod. Yna bendithiodd Duw y seithfed dydd a'i wneud yn ddiwrnod o orffwys. Yng Ngardd Eden roedd Adda ac Efa ei wraig yn berffaith hapus wrth ufuddhau i Dduw.



22

Roedd Duw yn ARGLWYDD iddyn nhw, roedd yn rhoi popeth roedden nhw ei angen iddyn nhw ac roedd yn Ffrind iddyn nhw.



23

Pan greodd Duw bopeth

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Genesis 1-2

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Y gosb am bechod ydy marwolaeth.

Mae Duw yn ein caru ni gymaint, fe wnaeth e anfon ei Fab, Iesu, i farw ar Groes. Fe wnaeth e gymryd ein cosb ni. **Daeth Iesu yn fyw eto** ac aeth yn ôl i'r Nefoedd! Nawr gall Duw faddau ein pechodau.

Os wyt ti am droi oddi wrth dy bechodau, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Dduw, rwy'n credu bod Iesu wedi marw drosof fi a'i fod yn fyw eto. Os gweli'n dda tyrd i mewn i'm mywyd a maddau fy mhechodau, er mwyn i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna cael bod gyda Thi am byth. Helpa fi i fyw fel plentyn i ti. Amen. Ioan 3:16

Cofia ddarllen y Beibl a siarad bob dydd gyda Duw!

Welsh

Pan greodd Duw bopeth





Awdur Edward Hughes
Lluniau gan Byron Unger; Lazarus

Cyfieithydd Catrin Roberts
addaswyd gan Bob Davies; Tammy S.

Stori 1 o 60

M1914.org

Bible for Children, PO Box 3, Winnipeg MB R3C 2G1 Canada

Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Pwy wnaeth ein creu ni? Mae'r Beibl, Gair Duw, yn dweud sut gychwynnodd y ddynoliaeth. Amser maith yn ôl, creodd Duw'r dyn cyntaf a'i alw'n Adda.



1

Defnyddiodd bridd y ddaear i greu Adda. Pan chwythodd Duw anadl bywyd i Adda, daeth yn berson byw. Cafodd ei hun mewn gardd brydferth o'r enw Eden.



2

Cyn creu Adda, creodd Duw fyd hardd yn llawn o bethau rhyfeddol. Yn eu tro creodd fryniau a dyffrynnoedd, blodau persawrus a choed tal, adar gyda phlu lliwgar a gwenynod yn suo, morfilod yn ymdrochi a malwod llithrig.



3

A dweud y gwir, creodd Duw bopeth sy'n bod – popeth.



4

Ar y cychwyn cyntaf, cyn i Dduw greu unrhyw beth, doedd dim yn bodoli, dim ond Duw. Dim pobl, dim llefydd, dim pethau. Dim. Dim golau a dim tywyllwch. Dim lan a dim lawr.



5

Dim ddoe a dim fory. Dim ond Duw oedd yn bod, Duw sydd heb ddechreuad. Yna dyma Duw yn gweithredu! Ar y cychwyn cyntaf creodd Duw'r bydysawd a'r ddaear.



6

Roedd y ddaear yn anhrefn gwag, ac roedd hi'n hollol dywyll dros y dŵr dwfn. Yna dwedodd Duw, "Dw i eisiau golau!"

7

a daeth golau i fod. Galwodd Duw'r goleuni yn Ddydd a'r tywyllwch yn Nos. Ac roedd nos a dydd ar y diwrnod cyntaf.



8

Ar yr ail ddiwrnod, rhoddodd Duw drefn ar ddŵr y cefnforoedd, y moroedd a'r llynnoedd. Ar y trydydd dydd, dywedodd Duw, "Dw i eisiau tir sych". Dyna ddigwyddodd.

9

Gorchmynnodd Duw hefyd i'r glaswellt a'r blodau a'r llwyni a'r coed ymddangos. A dyna ddigwyddodd. Ac roedd nos a dydd y trydydd diwrnod.



10

Yna creodd Duw'r haul, a'r lleuad, a chymaint o sêr doedd neb yn gallu eu rhifo. Ac roedd nos a dydd y pedwerydd diwrnod.



11

Creaduriaid y môr, y pysgod a'r adar oedd nesaf ar restr Duw. Ar y pumed dydd creodd bysgod cleddyf mawr a phenwaig bach, estrys gyda choesau hir ac adar y si bach hapus. Creodd Duw bob math o aderyn i fwynhau'r tir a'r môr a'r awyr. Ac roedd nos a dydd y pumed diwrnod.

12

Ar ôl hynny, siaradodd Duw eto. Dywedodd "Dw i eisiau i greaduriaid byw o bob math lenwi'r ddaear..." Daeth pob math o anifail, a phryfaid ac ymlusgiaid gwahanol i fod. Roedd yna eliffantod yn gwneud i'r ddaear grynu, ac afancod prysur.

13

Mwncïod direidus a chrocodeilod trwsgl. Mwydod aflonydd a gwiwerod rhesog digywilydd. Jiraffod hefo coesau hir a chathod yn canu grwndi. Creodd Duw bob math o anifeiliaid y diwrnod hwnnw. Ac roedd nos a dydd y chweched dydd.

14

Fe wnaeth Duw rywbeth arall ar y chweched dydd – rhywbeth arbennig iawn. Roedd popeth nawr yn barod ar gyfer Pobl. Roedd yna fwyd yn y caeau ac anifeiliaid i'w gwasanaethu.



15

A dywedodd Duw "Gadewch i ni wneud pobl yn ddelw ohonon ni'n hunain, i fod yn feistri sy'n gofalu am bopeth". FELLY DYMA DUW YN CREU POBL AR EI DDELW EI HUN; YN DDELW OHONO'I HUN Y CREODD NHW.

16

Dywedodd Duw wrth Adda, "Cei di fwyta unrhyw beth o'r ardd. Ond paid bwyta ffrwyth y goeden sy'n rhoi gwybodaeth am bopeth — da a drwg. Pan wnei di hynny byddi'n siŵr o farw."



17

A dywedodd yr ARGLWYDD Dduw, "Dydy e ddim yn beth da i'r dyn fod ar ei ben ei hun. Dw i'n mynd i wneud cymar iddo i'w gynnal." Daeth Duw â'r holl adar a'r creaduriaid at Adda.

18